# Gwybodaeth ar Arddangoswr

## AAT

@YourAAT

Mae cymwysterau AAT yn cynyddu effeithiolrwydd pobl wrth wraidd busnesau llwyddiannus. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau ar draws y Sector Cyhoeddus i ategu datblygiad timau cyllid medrus iawn. Dros y 40 mlynedd diwethaf, rydym wedi adeiladu ein henw da drwy sicrhau bod ein cymwysterau'n darparu gwybodaeth a sgiliau go iawn sy'n caniatáu i gyflogwyr a gweithwyr fod yn llwyddiannus.

**www.aat.org.uk**

## ACCA

@ACCA_UK

ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig) yw'r corff proffesiynol byd-eang ar gyfer cyfrifwyr proffesiynol.

Rydym yn gymuned fyd-eang ffyniannus o 241,000 o aelodau a 542,000 o aelodau'r dyfodol a leolir mewn 178 o wledydd a rhanbarthau, sy'n gweithio ar draws ystod eang o sectorau a diwydiannau. Rydym yn cynnal y gwerthoedd proffesiynol a moesegol uchaf.

Rydym yn cynnig cyfle i bawb ym mhobman brofi gyrfa werth chweil mewn cyfrifeg, cyllid a rheolaeth. Mae ein cymwysterau a'n cyfleoedd dysgu yn datblygu arweinwyr busnes strategol, gweithwyr proffesiynol blaengar gyda'r arbenigedd ariannol, busnes a digidol sy'n hanfodol o ran creu sefydliadau cynaliadwy a chymdeithasau llewyrchus.

Ers 1904, mae bod yn rym er lles cyhoeddus wedi bod wrth wraidd ein pwrpas. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom ymrwymiadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yr ydym yn eu mesur a byddwn yn adrodd arnynt yn ein hadroddiad integredig blynyddol. Credwn fod cyfrifeg yn broffesiwn conglfaen i gymdeithas ac yn hanfodol o ran helpu economïau, sefydliadau ac unigolion i dyfu a ffynnu. Mae'n gwneud hyn drwy greu rheolaeth ariannol a busnes dibynadwy cadarn, mynd i'r afael â llygredd, sicrhau bod sefydliadau'n cael eu rheoli'n foesegol, sbarduno cynaliadwyedd, a darparu cyfleoedd gyrfa gwerth chweil.

A thrwy ein hymchwil flaengar, rydym yn arwain y proffesiwn drwy ateb cwestiynau heddiw a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Sefydliad nid-er-elw ydym.

**www.accaglobal.com**

## CIPFA

@CIPFA

The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA) is the only accountancy body in the world exclusively focused on the public sector. At the heart of our mission to build trust by strengthening public financial management is the CIPFA Professional Accountancy Qualification (PAQ). It delivers world-class public finance management training that focuses on technical competency, ethical principles, sustainable public value, and strategic thinking. It leads to the Chartered Public Finance Accountant (CPFA) designation and is the ideal next step for those seeking a challenging and rewarding career as a finance professional within the NHS.

**www.cipfa.org**